



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2005 Rhif 1310 (Cy.92)**

**2005 No. 1310 (W.92)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005

The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn sy'n gymwys o ran Cymru'n diwygio ymhellach Reoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995 (O.S. 1995/540, fel y'i diwygiwyd eisoes, ac sy'n rychwantu Prydain Fawr i gyd) ac yn rhoi ar waith y rhan honno o Erthygl 5(1)(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 71/118/EEC sy'n ymwneud â phroblemau iechyd sy'n effeithio ar gynhyrchu cig dofednod ffres a'i roi ar y farchnad (atodwyd testun y Gyfarwyddeb uchod, ar ôl ei gyfuno, i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/116/EEC (OJ Rhif L62, 15.3.93, t.1.) ac sy'n gwahardd rhoi cig dofednod ar y farchnad i'w fwyta gan bobl os cafodd ei drin â chyfryngau dal dŵr neu os y'i cafwyd o dan amodau technolegol debyg a'i fod, o ganlyniad, yn debygol o fod yn achos yr un risg.

1. These Regulations, which apply in relation to Wales, further amend the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995 (S.I. 1995/540, as already amended, which extend to the whole of Great Britain) and implement that part of Article 5(1)(b) of Council Directive 71/118/EEC on health problems affecting the production and placing on the market of fresh poultrymeat (a consolidated text of which is annexed to Council Directive 92/116/EEC (OJ No. L62, 15.3.93, p.1)) that prohibits poultrymeat from being placed on the market for human consumption if it has been treated with water retention agents or obtained under technologically similar conditions and likely as a result to present the same risk.

2. Rhoddir y gwaharddiad uchod ar waith drwy ddiwygio'n briodol reoliad 14(2) o O.S. 1995/540 (rheoliad 2(2)).

2. The above prohibition is implemented by making an appropriate amendment to regulation 14(2) of S.I. 1995/540 (regulation 2(2)).

3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau canlyniadol i reoliad 14(9) o O.S. 1995/540 (rheoliad 2(3)) ac i Atodlen 2 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 (O.S. 1996/3124, fel y'i diwygiwyd eisoes) (rheoliad 3).

3. These Regulations also make consequential changes to regulation 14(9) of S.I. 1995/540 (regulation 2(3)) and to Schedule 2 to the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996 (S.I. 1996/3124, as already amended) (regulation 3).

4. Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac wedi'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â nodyn trosi sy'n nodi sut y trosir yn y Rheoliadau hyn, y gwaharddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 1. Gellir cael copïau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.

4. A regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and has been placed in the Library of the National Assembly for Wales, together with a transposition note setting out how the prohibition referred to in paragraph 1 is transposed in these Regulations. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

**2005 Rhif 1310 (Cy.92)****2005 No. 1310 (W.92)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES**

**Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005**

**The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005**

*Wedi'u gwneud* 10 Mai 2005  
*Yn dod i rym* 20 Mai 2005

*Made* 10 May 2005  
*Coming into force* 20 May 2005

Ac yntau wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â mesurau'n ymwneud â bwyd, gan gynnwys cynhyrchu cynradd o ran bwyd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures relating to food including the primary production of food, in exercise of the powers conferred by that section; and after consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005, deuant i rym ar 20 Mai 2005 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Title, commencement and application**

1. These Regulations are called the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005, come into force on 20 May 2005 and apply in relation to Wales.

**Diwygio Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995**

2.-(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995(4) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

**Amendment to the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995**

2.-(1) In so far as they apply to Wales, the Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(4) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(1) O.S. 2003/2901.

(2) 1972 p.68.

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2001, t.1.

(4) O.S. 1995/540. Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2148, O.S. 1995/2200, O.S. 1997/1729, O.S. 2000/656, O.S. 2000/2257 (Cy.150), O.S. 2001/2198 (Cy.158), O.S. 2002/47 (Cy.6) ac O.S. 2002/1476 (Cy.148).

(1) S.I. 2003/2901.

(2) 1972 c.68.

(3) OJ No. L31, 1.2.2001, p.1.

(4) S.I. 1995/540. Amended by S.I. 1995/1763, S.I. 1995/2148, S.I. 1995/2200, S.I. 1997/1729, S.I. 2000/656, S.I. 2000/2257 (W.150), S.I. 2001/2198 (W.158), S.I. 2002/47 (W.6) and S.I. 2002/1476 (W.148).

(2) Yn lle is-baragraff (2)(b) o reoliad 14 (amodau cyffredinol) rhodder yr is-baragraff a ganlyn -

"(b)poultry meat which -

- (i) has not been eviscerated or has been obtained from the body of any bird which has not been eviscerated,
- (ii) has been treated with an agent used to promote water retention, or has been obtained in technologically similar conditions and is likely as a result to present the same risk; or".

(3) Yn lle paragraff (9) o reoliad 14 rhodder y paragraff a ganlyn -

"(9) Paragraph 2(b)(i) shall not apply to partially eviscerated poultry ("effilé")."

### Diwygiad canlyniadol

3. I'r graddau y mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(1) yn gymwys o ran Cymru, diwygir paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny (rheoliadau sy'n berthnasol i fasnach o fewn y Gymuned) drwy roi'r cyfeiriadau a ganlyn yn lle'r ymadrodd "The Meat (Hazard Analysis and Critical Control Point) (Wales) Regulations 2002"(2) -

"S.I. 2002/1476 (W.148);

The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005;"

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(3).

10 Mai 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

- 
- (1) O.S. 1996/3124, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/3023, O.S. 1998/994, O.S. 1999/683, O.S. 2000/656, O.S. 2000/1885 (Cy.131), O.S. 2000/2257 (Cy.150), O.S. 2001/1660 (Cy.119), O.S. 2001/2198 (Cy.158), O.S. 2001/2219 (Cy.159), O.S. 2002/47 (Cy.6), O.S. 2002/1476 (Cy.148), O.S. 2003/3229 (Cy. 309) ac O.S. 2004/1430 (Cy.144). Yn rhinwedd O.S.2004/1430 (Cy.144), mae O.S. 1996/3124 yn gymwys bellach mewn perthynas â masnach o fewn y Gymuned yn unig.
- (2) O.S. 2002/1476 (Cy.148).
- (3) 1998 p.38.

(2) For sub-paragraph (2)(b) of regulation 14 (general conditions) substitute the following sub-paragraph -

"(b)poultry meat which -

- (i) has not been eviscerated or has been obtained from the body of any bird which has not been eviscerated,
- (ii) has been treated with an agent used to promote water retention, or has been obtained in technologically similar conditions and is likely as a result to present the same risk; or".

(3) For paragraph (9) of regulation 14 substitute the following paragraph -

"(9) Paragraph 2(b)(i) shall not apply to partially eviscerated poultry ("effilé")."

### Consequential amendment

3. Insofar as the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996(1) apply in relation to Wales, paragraph 7 of Schedule 2 to those Regulations (regulations relevant to intra-Community trade) is amended by substituting the following references for the phrase "The Meat (Hazard Analysis and Critical Control Point) (Wales) Regulations 2002"(2) -

"S.I. 2002/1476 (W.148);

The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2005;"

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(3).

10 May 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

- 
- (1) S.I. 1996/3124, amended by S.I. 1997/3023, S.I. 1998/994, S.I. 1999/683, S.I. 2000/656, S.I. 2000/1885 (W.131), S.I. 2000/2257 (W.150), S.I. 2001/1660 (W.119), S.I. 2001/2198 (W.158), S.I. 2001/2219 (W.159), S.I. 2002/47 (W.6), S.I. 2002/1476 (W.148), S.I. 2003/3229 (W.309) and S.I. 2004/1430 (W.144). By virtue of S.I. 2004/1430 (W.144), S.I. 1996/3124 now applies in relation to intra-Community trade only.
- (2) S.I. 2002/1476 (W.148).
- (3) 1998 c.38.







**2005 Rhif 1310 (Cy.92)**

**BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Cig Dofednod, Cig  
Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig  
Cwningod (Hylendid ac Archwilio)  
(Diwygio) (Cymru)  
2005

**2005 No. 1310 (W.92)**

**FOOD, WALES**

The Poultry Meat, Farmed Game  
Bird Meat and Rabbit Meat  
(Hygiene and Inspection)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

W76/5/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091125-3



9 780110 911250